9FED O HYDREF

Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol

Wythnos yma



Noson Bingo

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y Noson Bingo heno yn neuadd yr ysgol, sydd wedi'i threfnu gan y GRhA. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i helpu gyda'r digwyddiad ac i'r rhai sydd wedi cyfrannu gwobrau neu gefnogaeth mewn unrhyw ffordd.

Mae digwyddiadau fel hyn yn gyfle gwych i ddod â chymuned yr ysgol ynghyd, ac rydym yn gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r noson. Croeso cynnes i bawb sy'n dod i gefnogi. Pob lwc i'r holl chwaraewyr!

Nosweithiau Rhieni Blwyddyn 6

Diolch yn fawr i'r rhieni a'r gofalwyr a ddaeth i'r ysgol yn ystod yr wythnos i gyfarfod ag athrawon Blwyddyn 6. Roedd yn bleser cael y cyfle i drafod cynnydd, lles a datblygiad eich plentyn gyda chi.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol, ac mae'r trafodaethau hyn yn rhan bwysig o sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl i'n disgyblion. Os nad oeddech yn gallu mynychu, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, pryderon neu ymholiadau pellach, cysylltwch â'r ysgol unrhyw bryd.

Calendr

Noson Bingo y GRhA
9fed o Hydref

Bore Agored Ysgol Treganna
16eg o Hydref

Disgo Calan Gaeaf y GRhA
22ain o Hydref

Diweddariad Cinio Ysgol

Fel y mae llawer ohonoch yn ymwybodol, bu problem gyda system awyru'r gegin ers cyn gwyliau'r haf. Daeth peiriannydd i wneud gwaith ar ddiwedd tymor yr haf ac roedd yn ymddangos bod y broblem wedi'i datrys. Yn anffodus, pan ailddechreuodd y gegin weithredu'n llawn ym mis Medi, daeth yn amlwg fod y broblem yn parhau.

Oherwydd y nam gyda'r system awyru, dim ond y ddwy ffwrn drydan y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae hyn wedi lleihau gallu'r gegin i goginio nifer fawr o brydau ac wedi effeithio ar yr amrywiaeth o fwyd y gellir ei baratoi ar y safle.

Er gwaethaf yr heriau hyn, hoffem roi sicrwydd i rieni ein bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd a'r Gwasanaeth Arlwyo er mwyn sicrhau bod pryd poeth ar gael i'r disgyblion bob dydd. Rydym hefyd wedi sicrhau bod holl ofynion dietegol y plant yn cael eu diwallu'n llawn.

Rydym yn gwerthfawrogi bod y sefyllfa hon wedi parhau'n hirach nag y byddai unrhyw un wedi dymuno. Fel ysgol, rydym yn rhannu'r rhwystredigaeth a deimlir gan lawer o rieni a llywodraethwyr. Rydym wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion y Cyngor a'r Gwasanaeth Arlwyo, ac rydym wedi cael sicrwydd bod datrysiad bellach wedi'i nodi ac y bydd gwaith paratoi yn dechrau dros yr wythnosau nesaf.

Y gobaith yw y gellir cychwyn rhywfaint o'r gwaith hwn yn ystod y tymor, gyda'r gwaith llawn yn cael ei gwblhau dros wyliau hanner tymor. Rydym wedi cael gwybod y dylai hyn ddatrys y broblem unwaith ac am byth.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl bartïon perthnasol ac yn rhoi diweddariad pellach yr wythnos nesaf ar ôl derbyn mwy o wybodaeth am y gwaith arfaethedig.

Yn y cyfamser, dyma fwydlen yr wythnos nesaf:

Dydd Llun: Pasta Pob Napolitaidd, Brocoli, Bara Garlleg, Iogwrt, Caws a Cracers, Ffrwythau

Dydd Mawrth: Cyri Cyw Iâr Korma, Korma Llysieuol, Reis, Bara Naan, Llysiau Cymysg, Jeli a Ffrwythau

Dydd Mercher: Sbageti Bolognese Cig Eidion, Bolognese Llysieuol, Ŷd Melys, Pasta, Teisen Fflapjac

Dydd Iau: Selsig, Selsig Fegan, Tatws Newydd, Moron, Pys, Arctic Roll, Coctel Ffrwythau

Dydd Gwener: Bysedd Pysgod, Bysedd Di-bysgod, Tatws Newydd, Ffa Pob, Pys, Iogwrt, Ffrwythau, Caws a Chracers.

Diolch am eich amynedd, eich dealltwriaeth a'ch cefnogaeth barhaus wrth inni weithio i ddatrys y mater hwn. Gallaf eich sicrhau bod darparu gwasanaeth bwyd diogel ac o ansawdd uchel i'n disgyblion yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a byddwn yn eich diweddaru wrth i'r sefyllfa ddatblygu.



Bore Agored Ysgol Treganna

Cofiwch ddod i ymweld â'n hysgol ar gyfer ein Bore Agored ddydd Gwener, 16eg o Hydref.

Bydd hwn yn gyfle gwych i chi ddod i weld ein darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chael cipolwg ar y profiadau cyfoethog sydd ar gael i'n disgyblion.

Gallwch weld drosoch eich hun pam mae Estyn wedi canmol annibyniaeth, mentergarwch a disgwyliadau uchel y disgyblion yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn.

Un ychwanegiad cyffrous i'n ddarpariaeth Derbyn eleni yw'r ystafell newydd" Y Gegin Fach". Rydym yn annog y disgyblion i goginio, dilyn ryseitiau, cydweithio a datblygu eu hannibyniaeth drwy weithgareddau ymarferol.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu i'r ysgol. Bydd cyfle hefyd i chi grwydro o gwmpas gweddill yr ysgol ac ymweld â'n hardaloedd dysgu awyr agored.

Noson Bingo


NOSON BINGO NIGHT
Noson bingo gyda gwobrau gwych, bwyd blasus a digon o hwyl – dewch draw i gefnogi'r ysgol!
Bingo night with great prizes, tasty food and plenty of fun – come along and support the school!
09 HYD | OCT - 7PM
Neuadd Ysgol Treganna School Hall
£10 Y TOCYN
GAN GYNNWYS DIOD A DABBER
£10 A TICKET
WITH A DRINK AND DABBER INCLUDED
PRYNWCH EICH TOCYNNAU YMA
BUY YOUR TICKETS HERE

Patrwm Iaith yr Wythnos

Fy hoff beth i yw...
Fy nghas beth i yw...

Her
Mae hwn llawn cystal â...
Dydy hwn ddim cystal â...

Testun trafod yr wythnos
Pe bawn i'n anweledig...

Cân yr wythnos

Bando - Shampŵ

Idiom/ Dihareb yr wythnos
Dŵr dan bont